Stori Suki

Mae Suki'n 53 mlwydd oed ac yn gynorthwy-ydd addysgu rhan amser a gofalwr. Mae ei thad yn anabl felly pan oedd ei mam yn sâl yn ddiweddar, sylweddolodd fod angen iddi dreulio mwy o amser yn gofalu am ei rhieni gan na allent ymdopi eu hunain bellach.

"Roeddwn i'n arfer gweithio rhan amser ond nawr, wrth edrych ar ôl fy mam a'n nhad oedrannus, dim ond ychydig o oriau gallaf weithio. Rwyf wedi bod yn bryderus iawn am yr effaith y caiff hyn ar fy Mhensiwn y Wladwriaeth oherwydd dwi ddim yn ennill digon nawr i dalu Yswiriant Gwladol

"Roeddwn dan bwysau felly wnaeth ffrind i mi fy helpu i wneud yn siwr roeddwn yn cael yr holl gymorth oedd gen i hawl iddo. Dywedodd wrthaf am wefan www.direct.gov.uk/dyfodolgwell felly penderfynais gymryd golwg i wybod mwy am gael trefnu fy arian ar gyfer ymddeoliad. Roedd unrhyw beth yn well na eistedd yna yn poeni amdano.

"Cefais wybod fy mod i angen 30 o flynyddoedd o gyfraniadau Yswiriant Gwladol i fod yn gymwys am y Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol llawn, ond oherwydd fy mod yn edrych ar ôl fy mam a'n nhad roeddwn yn poeni nad oedd gennyf ddigon.

"Penderfynais ddefnyddio'r amlinellydd Pensiwn y Wladwriaeth ar www.direct.gov.uk/dyfodolgwell i weithio allan tua faint o Bensiwn y Wladwriaeth rwyf wedi ei adeiladu a cefais wybod efallai gallaf ddiogelu fy nghyfraniadau Yswiriant Gwladol drwy'r Credyd Gofalwr newydd.

"Mae Credyd Gofalwr yn arbennig ar gyfer pob fel fi sydd wedi gorfod rhoi'r gorau i weithio neu weithio llai o oriau oherwydd cyfifoldeb gofalu. Felly os ydych yn edrych ar ôl un person neu fwy am gyfanswm o fwy na 20 awr yr wythnos neu fwy, efallai gallwch chi gael Credyd Gofalwr hefyd.

"Darllenais y wybodaeth ar y wefan a penderfynais wneud cais – roedd yn hawdd iawn i'w wneud a gall wneud gwahaniaeth mawr i fy sicrwydd ariannol yn nes ymlaen.

"Hefyd rwyf wedi pasio'r wybodaeth ymlaen i ffrind arall i mi sy'n byw i lawr y lôn. Cafodd gŵr Maria strôc rhai blynyddoedd yn ôl ac mae hi'n yr un sefyllfa â mi, felly mae'n bendant yn werth iddi hi ffendio allan os gallai gael Credyd Gofalwr hefyd."

Gallwch ddarganfod mwy a llawrlwytho pecyn cais am Gredyd Gofalwr yn www.direct.gov.uk/carerscredit

Neu ffoniwch ni am fwy o wybodaeth:

0845 608 4321

0845 604 5312

Darganfyddwch mwy am y camau syml gallwch eu cymryd i gynllunio sut byddwch yn ariannu eich ymddeoliad drwy ymweld â www.direct.gov.uk/dyfodolgwell

Cysylltwch â ni am fod yn bartner:
pensions.planning@dwp.gsi.gov.uk

DWP Adran Gwaith a Phensiynau